FFYNGAU'R ARDD

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn lle ardderchog i ddod i chwilio am ffyngau gwyllt. Mae cannoedd o rywogaethau o ffyngau yn tyfu yma – bydd y llyfryn hwn yn eich cyflwyno chi i ddeg o'r rhywogaethau mwyaf hynod.

GARDEN FUNGI

The National Botanic Garden of Wales is a great place to come and look for wild fungi. Hundreds of fungal species live here - this booklet will introduce you to ten of the most fascinating.

FFYNGAU'R ARDD
GARDEN FUNGI

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn lle ardderchog i ddod i chwilio am ffyngau gwyllt. Mae cynefinoedd delfrydol ar gyfer ffwng yma – coed, caeau, lawntiau a gwelyau blodau. Mae rhai o'n ffyngau yn arbennig iawn. Mae gennym ffyngau gwyllt nad oes eu tebyg yn un man arall yng Nghymru – ffyngau sy'n brin iawn ar draws y DG, ac mae amrywiaeth o ffyngau capiau cwyr amryliw o bwysigrwydd rhyngwladol ar ddôl yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las. Ry'n ni hefyd yn gartref i rai o'r ffyngau mwyaf rhyfeddol a phrydferth ar y ddaear.

Mae cannoedd o rywogaethau ffyngaidd yn tyfu yn yr Ardd – bydd y llyfryn hwn yn eich cyflwyno chi i ddeg o'r rhywogaethau mwyaf hynod. Bob blwyddyn ry'n ni'n cynnal helfeydd ffyngau yn ystod tymor yr hydref, a Diwrnod Ffyngau Cymru, sy'n llawn digwyddiadau, yn ystod mis Hydref. Am fwy o fanylion, cadwch olwg ar ein gwefan **www.gardenofwales.org.uk**

Mae corff hadol ffwng yn debyg i grib mynydd iâ. O dan y ddaear neu y tu fewn i'r goeden mae prif ran y corff, a wnaed o hyffâu cydblethedig sy'n cael eu hadnabod yn fyseliwm. Mae'r myseliwm yn amsugno maeth o'r pridd, y goeden neu o ba amgylchedd bynnag y mae ynddynt. Gadewch y cyrff hadol i fod os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi cyfle i ymwelwyr eraill eu mwynhau.

Geiriau a lluniau gan Bruce Langridge (oni bai am lun y Clust Jeli gan Pam Murden).
Dylunwaith gan Ingleby Davies Design.
Creuwyd gyda chefnogaeth Penny David a'r diweddar Maurice Rotheroe.

The National Botanic Garden of Wales is a great place to come and look for wild fungi. There are wonderful fungus-friendly habitats here – woods, fields, lawns and flower beds. Some of our fungi are also very special. We've wild fungi that have been found nowhere else in Wales, fungi that are rare across the UK and, on our Waun Las National Nature Reserve, we have a meadow that has an internationally important array of multi-coloured waxcap fungi. We're also home to some of the most bizarre and beautiful fungi on Earth.

Hundreds of fungal species live in the Garden – this booklet will introduce you to ten of the most fascinating. Every year we run autumnal fungal forays as well as an event-packed Wales Fungus Day in October. For details, keep an eye on our website **www.gardenofwales.org.uk.**

The fungus fruiting body is like the tip of an iceberg. Under the ground or within wood is its main body, made up of interwoven hyphae which are collectively known as the mycelium. This absorbs nutrients from the soil, wood or whatever environment it is in. Please leave fruiting bodies alone so that other visitors can enjoy them.

Text and images by Bruce Langridge (except the Jelly Ear photo by Pam Murden).
Design by Ingleby Davies Design.
Created with the support of Penny David and the late Maurice Rotheroe.



LLEFYDD GORAU
FUNGUS HOTSPOTS

Nyth Aderyn Rhychiog
Gellir dod o hyd i'r ffwng wyllt hynod hwn bob hydref ar bentwr o goed yng Nghoed Trawscoed. Mae e'n debyg iawn i nyth aderyn bychan gydag wyau bychan ynddo. Mae'r 'wyau' hyn yn cynnwys y sborau, sy'n cael eu tasgu allan o'r nyth gan ddiferyn o law. Mae llysysyddion, fel y falwoden ddu, yn bwyta'r 'wyau' hyn, ac felly'n helpu i ehangu cwmpawd y ffwng hwn sy'n pydru coed.

1 *Cyathus striata*

Fluted Bird's Nest
This bizarre wild fungus can be found every autumn on log piles in Trawscoed Wood. It looks like a tiny bird's nest with tiny eggs inside. These 'eggs' actually contain the spores, and are flung out of the 'nest' by the force of a falling raindrop. 'Egg'-eating herbivores, such as a slug, can help to spread the range of this wood-rotting fungus.

Capiau Cwyr y Ddôl
Yng Ngwarchodfa Natur Waun Las mae llechwedd lle y cofnodwyd 23 rhywogaeth o gapiau cwyr. Mae'r madarch amryliw hyn, rhai ohonyn nhw'n bersawr hefyd, yn prinhau'n gyflym yng nghefn gwlad Cymru, gan nad ydyn nhw'n gallu goddef gwrtaith na chael eu haredig. Ond mae capiau cwyr yn ffynnu ar ddolydd organig Gwarchodfa Waun Las, sy'n cael eu pori gan ddefaid a gwartheg, ac hefyd ar rai o lawntiau'r Ardd.

2 *Hygrocybe spp.*

Waxcaps
On Waun Las NNR, there is a hillside where 23 species of waxcap have been recorded. These multi-coloured, sometimes fragrant mushrooms have become increasing rare in the Welsh countryside as they cannot tolerate fertilisers and ploughing. But waxcaps thrive on the organically managed fields at Waun Las, where sheep and cattle graze, and also on some of the Garden's lawns.

Pelenni Du
Os y'ch allan yn gwersylla ac yn cael trafferth cynnau tân, gall y ffwng hwn fod yn ddefnyddiol iawn. Fe'i canfyddir ar frigau marw'r onnen yng Nghoed Trawscoed, ac os yw'n sych fe'i cynheuir gan wreichionen, a bydd yn llosgi'n araf. O'i agor gan gyllell, gallwch weld cylchoedd consentrig y tu fewn – sy'n esbonio'i enw Lladin. Efallai hefyd y gwelwch bryfed yn byw ynddi.

3 *Daldinia concentrica*

King Alfred's Cakes
If you're out camping and are having trouble lighting a camp fire, this fungus could come in handy. Found on dead ash branches in our Trawscoed Wood, it will easily take a spark if dry and will burn slowly. Open it up with a knife and you'll see concentric rings inside – this explains its Latin name. You might also see little insects living inside.

Clust Jeli
Edrychwch am hwn ar wreiddiau'r coed Ghanaidd yn Ngoedwig y Bwganod, ac wedyn ei gyffwrdd. Mae'n edrych fel clust rhywun, ond hefyd mae e'n teimlo'n syndod o debyg i un. Canfyddir y ffwng hynod hwn fel arfer ar goed ysgawen y *Sambucus nigra*. Mae ei enwau hanesyddol, sef Ffyngau Sambwci a Chlust yr Iddew, yn adlewyrchu'r cyswllt hwn – mae William Shakespeare yn sôn yn ei *Love's Labour's Lost* bod Jwdas Iscariot wedi crogi ei hun ar goeden ysgawen.

4 *Auricularia auricula-judae*

Jelly Ear
Have a look for this on the Ghanaian tree roots of the Ghost Forest then have a touch. Not only does it look like an ear, it feels like one. This strange looking fungus is normally found on elder *Sambucus nigra* trees. Its historical names of Fungi Sambuci and Judas Ear reflect this link – William Shakespeare recounts in his *Love's Labour's Lost* that Judas Iscariot was hanged on an elder tree.

Cap Gwin
Yn ystod Diwrnod Ffwng Cymru a gynhaliwyd yma yn Hydref 2013, sylwodd arbenigwyr ffwng profiadol bod y ffwng mawr hwn mewn tomwellt o asglodion pren yn ein gwelyau blodau o amgylch Coedwig y Bwganod. Ni chofnodwyd ef o gwbl yng Nghymru cyn hynny, a phrin iawn y cofnodwyd ef yn Lloegr. Gan ein bod ni'n creu ein holl asglodion pren ar y safle, mae'n ddirgelwch sut y daeth y ffwng hwn yma. Yn yr Unol Daleithiau fe'i hystyrir yn ddanteithfwyd.

5 *Stropharia rugosoannulata*

King Stropharia
During Wales Fungus Day, held here in October 2013, experienced fungus experts noticed lots of this large fungus in our woodchip mulched flower beds and around the Ghost Forest. It had never been recorded in Wales before and rarely in England. As we create all of our woodchip onsite, it's a mystery how this got here. In the USA, it's considered a culinary delicacy.

Cwpan Robin Goch
Edrychwch am y ffwng gwpan nodedig hwn o fis Ionawr i fis Mawrth ym Mhont Felin Gât, a'r coed gwern yn ymyl ein Labordy Ddŵr. Mae e'n tyfu ar frigau sydd wedi cwympo, yn enwedig y rhai sydd wedi'u gorchuddio â mwsogl pluog. Ar ddiwrnod sych, llonydd, ceisiwch ollwng ronyn o dywod ar y wyneb coch – efallai y gwelwch gwmwl bychan o sborau yn codi.

6 *Sarcoscypha* sp.

Scarlet Elf Cup
Look out for this distinctive cup-fungus from January to March in Pont Felin Gât and the alder woods next to our Aqualab. It grows on fallen branches, especially those that are covered in feathery moss. On a still, dry day, try dropping a grain of sand onto the red surface – you might just see a small cloud of spores rise up.

Rhoséd Gwridog
Mae darganfod rhywogaeth na chafodd ei chofnodi o'r blaen yn un o gyffroadau mawr chwilio am ffwng gwyllt. Ni chafodd y ffwng hynod hwn, a ddarganfuwyd o dan dderwen ar lawnt y Cwrt Stablau yn ystod hydref 2013, ei gofnodi erioed o'r blaen yng Ngorllewin Cymru. Tynnodd y diferion gwaedlyd-goch rhyfedd ar y mandyllau pigog sylw Grŵp Cofnodi Bywyd Gwyllt Gwirfoddol yr Ardd gyntaf.

7 *Abortiporus biennis*

Blushing Rosette
Finding a species that has never been recorded before is one of the thrills of looking for wild fungi. This strange fungus, which was found beneath an oak tree on the Stable Block lawn in the autumn of 2013, had never been recorded in West Wales before. The weird blood-red drops on the spiny pores first drew the attention of the Garden's volunteer wildlife recording group.

Tafod Bustach
Y'chi erioed wedi sylwi sut mae olion sgerbydol coed derw a choed castan melys sydd wedi disgyn yn gallu para am ddegawdau? Mae ffwng y Tafod Bustach yn un o'r rhywogaethau ffwngaidd arbenigol, prin, sy'n medru pydru eu rhuddin. Edrychwch am ei gorff hadol ar y goeden dderw fawr sydd wedi disgyn ar hyd llwybr ein Taith Gerdded Cefn Gwlad Cymru. Mewn tywydd llaith, mae'r ffwng hwn yn poeri hylif sy'n goch fel afu.

8 *Fistulina hepatica*

Beefsteak Fungus
Have you ever noticed how the fallen remains of oaks and sweet chestnuts can persist for decades? Beefsteak fungus is one of the few specialist fungal species that can rot their heartwood. Look for its fruiting body on the large fallen oak along our Welsh Country Walk. In damp weather, this can ooze a liver-red liquid.

Y Werthyd Wen
Mae'r ffwng rhithiol hwn yn dueddol o ymddangos ar ein dôl sy'n gyforiog o gapiau cwyr yng Ngwarchodfa Natur Waun Las. Mae e hefyd i'w weld ar hen lawntiau sydd heb gael eu hail-hadu neu eu boddi mewn gwrtaith, ffwngleiddiaid na lladdwyr mwsogl. Os oes hen lawnt gennych ac ry'ch chi'n gweld y ffwng hwn, ceisiwch roi amser iddo ryddhau ei sborau cyn ichi ei dorri. Mae'r Werthyd Wen yn un yn unig o deulu o ffyngau rhyfedd a lliwgar y *Clavariaceae* sy'n tyfu yn ein coetir a'n dolydd.

9 *Clavaria fragilis*

White Spindles
This ghostly fungus fruits on our waxcap-rich meadow on Waun Las NNR. It's also associated with old lawns that haven't been reseeded or doused in fertilisers, fungicides and moss-killers. If you see it on your lawn, try and give it time to release its spores before mowing. White spindles is just one of a family of strange and colourful *Clavariaceae* fungi that fruit in our woods and meadows.

Cap Bwgan
Mae cenedlaethau o bobl sy'n chwilio am wefr wedi bwyta'r 'fadarchen hudol' hon am ei phriodoleddau rhithbeiriol, ond erbyn hyn mae'n anghyfreithlon ichi fod â hon yn eich meddiant neu ei bwyta – ond, mae'n amlwg nad yw'r lindisyn bach hwn yn ymwybodol o'r newidiadau diweddar yn y gyfraith sydd wedi gwneud y fadarchen hon yn gyffur Categori A. Weithiau mae'n bwrw'i ffrwythau ar lawntiau'r Ardd ac ar borfeydd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las.

10 *Psilocybe semilanceata*

Liberty Cap
Generations of thrill seekers have eaten this 'magic mushroom' for its hallucinogenic properties but now it is illegal to possess or consume them – obviously this caterpillar is unaware of recent changes in the law which has made this a Class A drug. It occasionally fruits on the Garden's lawns and on the grazed pastures of Waun Las NNR.